

Deddfwriaeth dros ddatblygu cynaliadwy i sicrhau llesiant tymor hir Cymru

I Gymru allu datblygu'n gynaliadwy, mae angen newid y gyfraith er mwyn darparu'r prif elfennau sydd eu hangen i hyn allu digwydd:


- Syniad clir o'r hyn rydym yn anelu ato a deall y prif egwyddorion fydd yn ein harwain ato;
- Darlun clir o'r adnoddau naturiol sydd gennym, y peryglon sy'n eu hwynebu a'r cyfleoedd y maen nhw'n eu cynnig; a
- Proses effeithiol i sicrhau bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lle iawn i wneud i hynny ddigwydd.

Mae'r ddeddfwriaeth yn gwneud hynny trwy:



I'n helpu i wireddu'r amcanion, rhaid inni gynllunio sut ydym yn defnyddio'n tir a sut bydd ein dinasoedd, trefi a chymunedau'n newid dros amser

- Gyda **system sy'n seiliedig ar gynllun**, rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddeall beth sydd ei angen ar eu cymunedau. Bydd dyletswydd ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i ystyried y 'cynllun llesiant lleol' a gyhoeddir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)
- Trwy ymwneud yn fwy yn y **cam cyn ymgeisio**, bydd cymunedau yn cael cyfrannu'n fuan yn y broses gynllunio i ddylanwadu ar gynigion datblygu.
- Bydd **Cynlluniau Datblygu Strategol** yn canolbwyntio ar feysydd sy'n bwysicach na'r lleol. Yr allwedd yw ymdrin â datblygu sydd o natur strategol.
- Bydd y **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol** yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran defnyddio tir.



Rhaid cysylltu'r ffordd rydym yn defnyddio'n tir â'r ffordd rydym yn rheoli'n hadnoddau naturiol.

- **Rheoli adnoddau naturiol** - yn dylanwadu ar flaenoriaethau a chyfleoedd trwy dystiolaeth ar sail ardal.
- **Sail tystiolaeth** sy'n fwy cyson a phroactif ac wedi'i blaenoriaethu, ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol i gyd-fynd ag amcanion cenedlaethol a lleol
- Cyfleoedd wedi'u blaenoriaethu i fod yn sail ar gyfer penderfyniadau a sicrhau'r **datblygiad iawn** i gefnogi cynllunio positif.

Mae ein hadnoddau naturiol yn hanfodol inni allu sicrhau llesiant Cymru gynaliadwy:

- Adlewyrchir cydnerthedd a'r ffordd y defnyddir ein hadnoddau naturiol yn y saith **amcan** llesiant
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn un o'r 44 o **gyrff cyhoeddus** sy'n dod o dan y ddyletswydd datblygu cynaliadwy ac sy'n aelod o **Banel Cyngori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru.
- Yr **Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR)** fydd yn darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer ein hadnoddau naturiol gan ddylanwadu ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth iddynt asesu llesiant.
- Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n aelod statudol o bob **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)**, gan gefnogi partneriaethau ar draws y sector cyhoeddus i wneud y gorau o'u cyfraniad at yr amcanion llesiant.
- Bydd **datganiadau ardal** yn nodi anghenion, cyfleoedd a heriau lleol o fewn cyd-destun cynlluniau rheoli adnoddau lleol a llesiant lleol.